Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Polisi Gorfodi



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **4** |
| **1. Cyflwyniad** | **5** |
| **2. Ein Dull Rheoleiddio** | **6** |
| Deilliannau Rheoleiddio | 6 |
| Ein Hegwyddorion | 8 |
| Cymesur | 8 |
| Atebol | 8 |
| Cyson | 9 |
| Tryloyw | 9 |
| Targedu | 9 |
| **3. Cwynion** | **10** |
| Cyflwyno cwyn ddilys | 10 |
| Penderfynu ymchwilio neu beidio | 11 |
| Cwyn wedi'i gwneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r mater | 13 |
| Cwyn gwacsaw neu flinderus | 13 |
| **4. Ymchwiliadau** | **14** |
| Cynnal ymchwiliad | 14 |
| Cydweithio ag ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill | 15 |
| Terfynu ymchwiliad | 15 |
| Penderfynu ar ymchwiliad | 16 |
| Peidio â gweithredu ymhellach | 17 |
| Rhoi cyngor neu argymhellion | 17 |
| Cytundebau setlo | 18 |

# Cynnwys


Gosod gofyniad i gymryd camau penodol neu baratoi cynllun gweithredu 18

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r diffyg cydymffurfiaeth 19

Cosbau sifil 19

Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi 20

**5. Cofrestr Camau Gorfodi 21**

**6. Apelau i Dribiwnlys y Gymraeg 22**

**7. Cwyno am y Comisiynydd 23**

**8. Addasiadau Rhesymol 23**

**9. Hysbysiad Preifatrwydd 23**

**10. Fersiynau Hygyrch 23**

# Rhagair

Fel Comisiynydd y Gymraeg, mae'n bleser cyflwyno'r Polisi Gorfodi diwygiedig hwn, sy'n adlewyrchu ein dull o gyd-reoleiddio a'n ffocws cynyddol ar ddeilliannau rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod sefydliadau'n gallu darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel, a bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau; nid yn unig i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd i sicrhau bod hawliau siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwireddu'n ymarferol wrth dderbyn gwasanaethau.

Mae gennym rôl ddeuol fel rheoleiddiwr: addysgu, cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth, ond hefyd gorfodi lle bo angen. Ein dymuniad yw gweithio gyda sefydliadau drwy ddull ataliol a chydweithredol, er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae angen camau gorfodi. Fodd bynnag, pan nad oes sicrwydd na hyder fod sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau, byddwn yn gweithredu'n gadarn gan ddefnyddio ein holl bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth, ac yn ei dro i ddiogelu hawliau siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg.

Wrth wneud hyn, rydym yn ymrwymo i weithredu yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da – megis tegwch, cymesuredd, tryloywder a chysondeb – gan sicrhau bod ein camau'n briodol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

Ein nod yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, gan weithredu'n agored ac yn gyson er mwyn ennyn hyder yn ein dulliau. Rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n gwneud gwahaniaeth i siaradwyr Cymraeg, ac yn galw ar bob sefydliad i gydweithio â ni i gyflawni'r nod hwn.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus.





**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ("safonau"). Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion.

**1.2** Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu bod rhaid i sefydliadau hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**1.3** Mae Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i sefydliadau sy'n nodi'r safonau penodol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw, ac erbyn pryd. Mae copïau o'r hysbysiadau cydymffurfio ar ein gwefan.

**1.4** Mae'r Polisi Gorfodi hwn yn ddogfen statudol a luniwyd yn unol ag adran 108 y Mesur. Mae'r ddogfen yn rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y byddwn yn sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, ac mae'n adlewyrchu ein dyletswyddau dan Ran 5 y Mesur (Gorfodi Safonau).

**1.5** Mae'n egluro sut y byddwn yn delio â diffyg cydymffurfiaeth a pha gamau y byddwn fwyaf tebygol o'u cymryd mewn gwahanol amgylchiadau. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am ein hegwyddorion a'n hymagwedd at orfodi.

**1.6** Dylid darllen y polisi hwn law yn llaw â'n Fframwaith Rheoleiddio er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'n gwaith rheoleiddio. Dylid hefyd darllen ein gweithdrefn gwyno ac ymchwilio sy'n rhoi manylion ymarferol ein proses o ddelio â chwynion ac ymchwiliadau.

**1.7** Prif gynulleidfa darged y polisi yw'r sefydliadau hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r cyhoedd, ac i bersonau[1] sy'n dymuno cwyno ynglŷn â chydymffurfiaeth sefydliad.

**1.8** Dyma'r drydedd fersiwn o'r polisi. Byddwn yn ei adolygu'n barhaus a bydd copi ar gael ar ein gwefan ac yn ein holl swyddfeydd.

1 Mae person yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn neu gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol.

## 2. Ein Dull Rheoleiddio

**2.1** Rydyn ni'n rheoleiddio er mwyn sicrhau cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg. Drwy wneud hynny, byddwn hefyd yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth o Gymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

**2.2** Rydym wedi ymrwymo i ddull o gyd-reoleiddio gyda ffocws cryf ar hybu hunan-reoleiddio. Mae llwyddiant dull cyd-reoleiddio yn dibynnu ar weithredu mewn amgylchedd o fod yn agored ac yn onest.

**2.3** Rydym yn annog sefydliadau i gysylltu â ni yn gynnar i'n gwneud yn ymwybodol o unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau am gyngor ac eglurhad ar faterion sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth.

**2.4** Ein nod yw gwneud yn siŵr nad yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi yn unig. Mae'n golygu darparu cyngor, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, trosglwyddo arbenigedd a chefnogi sefydliadau yn eu hymdrechion i gydymffurfio â'r safonau.

**2.5** Yn syml, mae amrywiaeth o ddulliau y gallwn eu defnyddio, a byddwn bob amser yn dewis y dull fydd yn gweithio orau ymhob un amgylchiad.

**2.6** Mae cwynion gan y cyhoedd yn hollbwysig fel ffynhonnell gwybodaeth ynghylch safon ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig.

**2.7** Byddwn yn ystyried cynnal ymchwiliad statudol i bob cwyn ddilys rydym yn ei derbyn, yn unol â'r ddyletswydd sydd arnom dan adran 93 y Mesur. Os nad yw'n cefnogaeth reoleiddiol yn gweithio, byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd wedi eu rhoi i ni o dan Ran 5 o'r Mesur.

### Deilliannau Rheoleiddio

**2.8** Byddwn yn rheoleiddio gyda phwrpas penodol a strategol, ac yn glir iawn am yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio. Yn gyson â'n hymrwymiad i weithredu dull o gyd-reoleiddio, rydym wedi pennu a chyhoeddi deilliannau rheoleiddio.

**2.9** Ein bwriad drwy gyflwyno'r deilliannau rheoleiddio yw iddynt, ymysg pethau eraill:

- osod safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith
- ddarparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni

- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- lliniaru'r risg bod sefydliadau yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth gaeth yn hytrach na chanlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg.

**2.10** Rydym am i'r deilliannau hyn gynrychioli nodau ac amcanion cyffredin sefydliadau, defnyddwyr y Gymraeg yn ogystal â ninnau fel Comisiynydd y Gymraeg, a'n bod i gyd yn eu perchnogi.

**2.11** Bydd yr angen i gyflawni'r deilliannau hyn yn llywio ein dull a'n hymagwedd reoleiddio, a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau lle mae'r risgiau i gyflawniad y deilliannau yma ar eu mwyaf.



**Deilliant 1:** Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur



**Deilliant 2:** Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt



**Deilliant 3:** Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



**Deilliant 4:** Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd



**Deilliant 5:** Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd




**Deilliant 6:** Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo



## Ein hegwyddorion

2.12 Byddwn yn dilyn y pum egwyddor o reoleiddio da a nodir isod:




### Cymesur

2.13 Byddwn yn gymesur wrth benderfynu a ddylid ymchwilio neu beidio. Byddwn yn ystyried a ydy cynnal ymchwiliad yn ddefnydd rhesymol a chymesur o'n hadnoddau, gan ystyried difrifoldeb y mater.

2.14 Ar ôl i ymchwiliad ddod i ben, ac wrth benderfynu pa gamau pellach i'w cymryd, byddwn yn ystyried beth sy'n gymesur i atal diffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

### Atebol

2.15 Mae'r Mesur yn rhoi'r hawl i sefydliadau ac achwynwyr apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ("Tribiwnlys") yn erbyn rhai o'n penderfyniadau. Gall achwynwyr hefyd wneud cais iddo adolygu penderfyniad mewn rhai achosion. Ceir mwy o wybodaeth am waith y Tribiwnlys yn adran 6 y polisi hwn.

2.16 Byddwn yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu cymryd drwy dderbyn sylwadau ac adborth am ein gwaith a'r ffordd rydym yn defnyddio ein pwerau. Mae gennym drefn gwyno y gall person ei defnyddio er mwyn mynegi unrhyw bryderon ynghylch ein gwaith a'n penderfyniadau (wele adran 7 y polisi hwn).

### Cyson

**2.17** Byddwn yn ystyried ffeithiau pob achos yn unigol ac mewn modd cyson wrth benderfynu ar ymateb priodol. Drwy weithredu yn y modd hwnnw, byddwn yn sicrhau tegwch a gwrthrychedd wrth ymdrin â gwahanol bartïon. Gan gydnabod y bydd amgylchiadau pob achos yn wahanol, nid yw gweithredu dull cyson gyfystyr â dod i'r un penderfyniad.

### Tryloyw

**2.18** Byddwn yn dryloyw gan sicrhau bod y cyhoedd a sefydliadau yn deall y penderfyniadau rydym wedi eu cymryd a pham.

**2.19** Byddwn yn cadw cofnod o fanylion ein holl ymchwiliadau, gan gynnwys unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd. Cyhoeddir y wybodaeth yma ar ffurf Cofrestr Camau Gorfodi.

### Targedu

**2.20** Byddwn yn targedu ein gwaith rheoleiddio drwy weithredu ar nifer o fesurau penodol, gan gynnwys asesiad o risg. Byddwn yn defnyddio risg er mwyn rheoli'r defnydd o amser ac adnoddau, gan ganolbwyntio ar waith fydd yn cael y traweffaith fwyaf ar gydymffurfiaeth, ac ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

**2.21** Byddwn hefyd yn ystyried rhannu adnoddau gydag eraill lle bo modd, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu. Er enghraifft, gallwn gydweithio ag ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill wrth gynnal ymchwiliad mewn rhai achosion (wele adran 4 y polisi hwn). Byddwn yn ystyried amgylchiadau pob achos er mwyn dod i benderfyniad ar y dull mwyaf addas o weithredu.

# 3. Cwynion

**3.1** Yn gyson â'r deilliannau rheoleiddio rydym wedi eu gosod, rydym yn disgwyl i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel gan sefydliadau ac i bethau gael eu cywiro pan fyddant yn mynd o chwith.

**3.2** Mae ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau yn ddibynnol iawn ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y sefydliadau o'u perfformiad eu hunain. Mae cwynion yn un ffordd o ddysgu am brofiadau defnyddwyr. Er bod cwynion yn digwydd pan fo rhywbeth yn mynd o'i le, gellir eu gweld fel cyfle cadarnhaol i ddeall perfformiad yn well, a gwneud newidiadau.

**3.3** O dan y safonau, mae disgwyl i sefydliadau gael gweithdrefn gwyno sy'n amlinellu sut y maent yn bwriadu delio â chwynion, a chyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar ei gwefan.

**3.4** Rydym yn cymell achwynwyr i gyfeirio eu cwyn at y sefydliad dan sylw yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi cyfle iddo ymateb, a chynnig datrysiad. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad oes unrhyw reidrwydd ar achwynwyr i wneud hynny cyn y gall gyflwyno cwyn i ni.

**3.5** Pan fydd achwynydd yn cyflwyno cwyn ddilys i ni, byddwn yn ysgrifennu at y sefydliad er mwyn eu gwahodd i ymateb i'r gŵyn a rhoi gwybod i ni am:

- unrhyw amgylchiadau perthnasol sy'n esbonio beth sydd wedi digwydd
- unrhyw gamau sydd wedi eu cymryd i gywiro'r mater
- unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd yn y dyfodol i wneud yn siŵr na fydd sefyllfa tebyg yn codi eto.

**3.6** Ar ôl derbyn ymateb y sefydliad byddwn yn ystyried y camau y gallwn eu cymryd. Wrth wneud hynny bydd ein prif sylw ar geisio cael y datrysiad gorau posib i'r achwynydd ac i ddefnyddwyr y Gymraeg, boed hynny drwy gynnal ymchwiliad neu ddulliau eraill e.e. drwy ddefnyddio'r pwerau a roddir i ni dan adran 4 y Mesur.

### Cyflwyno cwyn ddilys i'r Comisiynydd

**3.7** Rhaid i unrhyw achwynydd fod yn berson sydd wedi ei effeithio'n uniongyrchol, neu'n berson sydd â chaniatâd i weithredu ar ran y person hwnnw. Ystyrir y naill berson fel achwynydd at ddibenion y polisi hwn.

**3.8** Byddwn yn derbyn cwynion:

- yn ysgrifenedig neu'n electronig
- drwy ein gwefan
- drwy ein rhwydweithiau cymdeithasol.

**3.9** Os nad yw'n bosib cyflwyno cwyn drwy'r dulliau uchod oherwydd amgylchiadau penodol, gall achwynydd gysylltu â ni dros y ffôn, neu unrhyw gyfrwng addas arall i egluro hynny ac i drafod eu cwyn. Byddwn yn gwneud darpariaeth resymol gan ddarparu cymorth iddynt gyflwyno cwyn drwy ddulliau eraill.

**3.10** Rhaid i achwynydd gyflwyno manylion digonol am ei gŵyn, gan gynnwys:

- enw'r sefydliad
- amgylchiadau'r gŵyn
- sut mae'r mater wedi effeithio ar yr achwynydd
- enw a manylion cyswllt yr achwynydd.

**3.11** Mae'n bosib na fyddwn yn gallu ystyried y gŵyn ymhellach os nad yw'r manylion yma wedi eu cyflwyno, neu os yw'r eithriadau ym mharagraffau 3.20-3.22 o'r polisi yn berthnasol.

**3.12** Mae manylion pellach ynglŷn â'n gweithdrefn gwynion ar gael ar ein gwefan.

### Penderfynu ymchwilio neu beidio

**3.13** Ble mae cwyn ddilys wedi ei gwneud, mae dyletswydd statudol arnom i ystyried cynnal ymchwiliad (oni bai fod yr eithriadau a amlinellir ym mharagraffau 3.20-3.22 isod yn berthnasol).

**3.14** Bydd ein penderfyniad i ymchwilio neu beidio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Gall y ffactorau hyn fod yn wahanol a/neu wedi'u pwysoli'n wahanol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Byddwn yn ystyried pob ffactor berthnasol cyn penderfynu a ddylid ymchwilio, gan adolygu a yw ffactorau'n parhau i fod yn berthnasol yn ystod ymchwiliad.

**3.15** Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

**(a)** ymateb y sefydliad pan ddaeth y mater i'r amlwg

**(b)** natur y diffyg cydymffurfiaeth, a'r graddau roedd yn fwriadol neu'n anfwriadol

**(c)** y camau a gymerwyd gan y sefydliad er mwyn mynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth

(ch) y graddau y bu'r mater hwn yn sail i gwynion neu ymchwiliadau blaenorol

(d) y tebygrwydd, yn ein barn ni, y bydd y mater hwn yn codi eto

(dd) y tebygrwydd, yn ein barn ni, y bydd y mater hwn yn debygol o gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y Gymraeg ac, os felly, pa mor arwyddocaol y gallai'r effaith hyn fod

(e) y tebygrwydd, yn ein barn ni, y byddai ymchwilio (ac unrhyw gamau dilynol ble bo'n berthnasol) yn cael effaith bositif ar gyflawniad ein deilliannau rheoleiddio

(f) y graddau roedd y sefydliad yn ymwybodol o'r risgiau a gymerwyd

(ff) a oeddem eisoes wedi darparu cyngor yn y maes hwn, ac a gydymffurfiwyd â'r cyngor hwnnw

(g) a oes modd ymateb i'r gŵyn heb ymchwilio ar y sail fod ateb cyfreithiol neu statudol yn bodoli sydd yn delio â sail y gwyn

(ng) a yw'r gŵyn wedi ei gwneud mewn amgylchiadau yr amlinellir ym mharagraffau 3.20-3.22.

**3.16** Pan fyddwn yn penderfynu ymchwilio, byddwn yn gwneud hynny gyda'r nod o:

- gasglu gwybodaeth a sefydlu'r ffeithiau
- adnabod diffyg cydymffurfiaeth a deall yr achosion
- bennu ymyriadau priodol, gan gynnwys unrhyw gamau gorfodi.

**3.17** Dylid nodi nad yw penderfyniad i beidio ymchwilio gyfystyr â pheidio gweithredu neu beidio cymryd unrhyw gamau rhagweithiol. Hyd yn oed os bydd sefydliad wedi rhoi sicrwydd uchel ar y cyswllt cyntaf bod y mater wedi ei ddatrys, a bod y tebygrwydd o'r diffyg yn codi eto yn isel, gallwn benderfynu cadw cyswllt gyda'r sefydliad a gofyn am dystiolaeth lle bo'n berthnasol.

**3.18** Ar ôl dod i benderfyniad, boed hynny'n benderfyniad i ymchwilio neu beidio, byddwn yn rhoi gwybod i'r partïon perthnasol ac yn egluro ein rhesymau yn llawn.

**3.19** Os bydd yr achwynydd yn anfodlon gyda'r penderfyniad, bydd modd iddo, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, wneud cais i adolygu'r penderfyniad. Byddwn yn rhoi gwybod i'r achwynydd o'r hawl hwnnw (wele adran 6 y polisi hwn).

### Cwyn wedi'i gwneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r mater

**3.20** Os yw cwyn yn cael ei gwneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r mater, ni fyddwn yn ystyried ymchwilio iddi oni bai ein bod o'r farn fod hynny'n briodol. Gall sefyllfaoedd felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r canlynol:

- diffyg cydymffurfiaeth yn parhau
- diffyg cydymffurfiaeth difrifol yn cael ei amlygu
- sylw cyhoeddus sylweddol yn yr achos
- achwynydd â rheswm dilys dros beidio â chyflwyno'r gŵyn ynghynt.

### Cwynion gwacsaw neu flinderus

**3.21** Os ydym o'r farn bod cwyn yn wacsaw neu'n flinderus, yn un sydd eisoes wedi ei chodi sawl gwaith, neu os tynnir y gŵyn yn ôl, ni fyddwn yn ymchwilio a byddwn yn cau'r gŵyn.

**3.22** Gall nifer o amgylchiadau ein harwain i gasglu bod cwyn yn un gwacsaw neu flinderus. Gall hynny gynnwys amgylchiadau lle bo'r achwynydd yn:

- cyflwyno cwyn ddisylwedd neu'n newid sylwedd y gŵyn
- cyflwyno cwyn sydd wedi ei gwneud fwy nac unwaith yn barod neu'n ymwneud â'r un mater a gyflwynwyd mewn cwyn flaenorol ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth newydd
- mynnu mynd ar drywydd cwyn ddilys mewn ffordd a ystyrir yn afresymol
- mynnu bod y gŵyn yn cael ei thrin mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r polisi gorfodi hwn neu ag arfer da
- gosod gofynion afresymol
- cysylltu mewn ffordd a ystyrir yn afresymol.

# 4. Ymchwiliadau

## Cynnal ymchwiliad

**4.1** Pan fyddwn wedi penderfynu cynnal ymchwiliad, boed yn ymchwiliad yn dilyn cwyn, neu yn ymchwiliad ar ein menter ein hunain, byddwn yn ceisio osgoi oedi di-angen ac yn dod i benderfyniad cyn gynted â phosib. Rydym yn cydnabod y gall ymchwiliadau achosi pryder a chreu ansicrwydd i'r achwynydd, ac hefyd i'r sefydliad dan sylw.

**4.2** I liniaru hyn, bydd ein swyddogion yn dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ymchwilio:

- Byddwn yn rhoi gwybod i bawb ar y cyfle cyntaf posib ein bod wedi agor ymchwiliad, a'r rhesymau am hynny
- Byddwn yn rhoi diweddariad rheolaidd ar ein hymchwiliad a byddwn yn rhoi gwybod pryd y gallent ddisgwyl y diweddariad nesaf
- Byddwn yn darparu manylion cyswllt y swyddog fydd yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt yn ystod ein hymchwiliad
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd rhesymol i bawb gyflwyno sylwadau ar wahanol gamau y broses ymchwilio. Bydd posib gwneud hynny ar lafar neu yn ysgrifenedig
- Byddwn yn cadw unrhyw dystiolaeth rydym yn ei dderbyn yn unol â'n cynllun cyhoeddi
- Byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i unrhyw sefydliad os penderfynir arfer ein pŵer i fynd i mewn i leoliad[2] sydd o dan ei reolaeth
- Byddwn yn rhoi gwybod pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch cymryd camau pellach neu beidio mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth
- Pan fyddwn yn cymryd camau dilynol, byddwn yn esbonio'r hawliau priodol i gyflwyno sylwadau a hawliau i apelio'r penderfyniad.

Byddwn hefyd yn gweithredu yn unol â'n dyletswyddau yn Atodlen 10, Rhannau 1-3 o'r Mesur, a hynny mewn ffordd prydlon ac amserol. Ceir mwy o fanylion am ein trefniadau ymarferol ar gyfer cynnal ymchwiliad yn ein gweithdrefn gwyno ac ymchwilio ar ein gwefan.

2 Nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i annedd.

### Cydweithio gydag ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill

**4.3** Os yw'n ymddangos y gallai pwnc ymchwiliad hefyd fod yn destun ymchwiliad gan ombwdsmon neu gomisiynydd arall, byddwn, os ydym o'r farn fod hynny'n briodol, yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'r ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol o'r ymchwiliad
- ymgynghori â'r ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol mewn perthynas â'r ymchwiliad.

**4.4** Ble bo'r ddau barti yn ymchwilio i'r un mater, neu ble bydd yr ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill yn ymchwilio i fater cysylltiedig, gellid gwneud un neu ragor o'r canlynol:

- cydweithredu mewn perthynas â'r ymchwiliad(au)
- cynnal ymchwiliad ar y cyd
- paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r gwahanol ymchwiliadau neu ymchwiliad ar y cyd.

**4.5** Os na fyddwn yn ymchwilio, byddwn yn darparu gwybodaeth ar sut i gyfeirio'r mater cysylltiedig at yr ombwdsmon neu gomisiynydd perthnasol arall. Byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall â chanddo fuddiant yn yr achos.

### Terfynu ymchwiliad

**4.6** Gallwn benderfynu terfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg. Gall y rhesymau dros benderfynu terfynu ymchwiliad gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i'r canlynol:

- yr ymchwiliad yn amlygu defnydd anghymesur o'n hadnoddau
- yr ymchwiliad yn amlygu yn fuan nad yw'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio ac felly nad oes cyfiawnhad dros ddefnyddio adnoddau wrth barhau â'r ymchwiliad
- yr ymchwiliad yn amlygu yn fuan bod y sefydliad yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth
- os ydym yn ystyried ei fod yn llesol i derfynu'r ymchwiliad er y budd cyhoeddus
- y sefydliad wedi'i ddiddymu
- os ydym yn ystyried fod un neu fwy o'r ffactorau a nodir yn adran 3.15 uchod yn dod yn berthnasol yn ystod yr ymchwiliad.

4.7 Ar adegau pan fyddwn yn penderfynu terfynu ymchwiliad, byddwn yn hysbysu'r partïon perthnasol o'r penderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny, ynghyd â'n rhesymau dros wneud hynny. Os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn, byddwn yn rhoi gwybod i'r achwynydd o'i hawl, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, i wneud cais iddo adolygu ein penderfyniad (wele adran 6 y polisi hwn).

### Penderfynu ar ymchwiliad

4.8 Ar ôl cynnal ymchwiliad, mae'n rhaid i ni benderfynu a yw'r sefydliad wedi methu cydymffurfio neu beidio, ac a fyddwn yn cymryd camau pellach. Bydd yr adroddiad yn egluro'r rhesymau dros ein penderfyniadau. Cyn penderfynu'n derfynol, byddwn yn llunio adroddiad drafft ar yr ymchwiliad, a rhoi cyfle i bob person â chanddo fuddiant gynnig sylwadau ar yr adroddiad drafft hwnnw.

4.9 Yn ddibynnol ar y penderfyniad, mae ystod o gamau gweithredu ar gael i ni. Maent yn cynnwys:

- peidio gweithredu ymhellach
- rhoi cyngor a/neu argymhellion i'r sefydliad neu unrhyw berson arall cymwys
- ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r sefydliad
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gymryd camau penodol
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad baratoi cynllun gweithredu
- rhoi cyhoeddusrwydd i ddiffyg cydymffurfiaeth y sefydliad
- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad roi cyhoeddusrwydd i'w ddiffyg cydymffurfiaeth
- rhoi cosb sifil.

4.10 Ble rydym wedi penderfynu bod sefydliad wedi methu cydymffurfio â safon, byddwn yn ceisio sicrhau bod sefydliad yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd. Ble nad yw hynny'n bosibl, byddwn yn cymryd camau i'w orfodi i gydymffurfio.

4.11 Yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn 2.12-2.21 o'r polisi hwn, byddwn yn arfer disgresiwn a barn broffesiynol wrth benderfynu ar ymateb priodol i bob achos unigol. Bydd yr union gamau y byddwn yn penderfynu eu cymryd yn dibynnu ar natur y diffyg cydymffurfiaeth a'r amgylchiadau cysylltiedig. Mae'r amgylchiadau hynny'n cynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol:

- cydweithrediad y sefydliad wrth gynnal yr ymchwiliad
- gallu a pharodrwydd y sefydliad i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio mewn modd effeithiol

- y camau a gymerwyd gan y sefydliad i atal y diffyg cydymffurfio ac i fynd i'r afael â'r rhesymau dros y diffygion hynny
- parodrwydd y sefydliad i fod yn agored am y diffyg cydymffurfio.

### Peidio â gweithredu ymhellach

**4.12** Pan fyddwn yn penderfynu peidio gweithredu ymhellach, ni fydd disgwyl i'r sefydliad gymryd unrhyw gamau pellach. Er hynny, bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon yn parhau.

### Rhoi cyngor neu argymhellion

**4.13** Pan fyddwn yn penderfynu rhoi cyngor neu argymhellion, byddwn yn gwneud hynny gyda'r bwriad o roi arweiniad ar sut i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

**4.14** Os ydym yn ystyried ei fod yn briodol, efallai y bydd llythyr rhybudd yn cyd-fynd â'n cyngor a'n harweiniad.

**4.15** Rydym yn fwy tebygol o gasglu bod rhoi cyngor neu argymhellion yn ymateb priodol (boed gyda rhybudd ysgrifenedig neu beidio) lle bernir bod un neu fwy o'r ffactorau isod yn arwyddocaol:

- mae'r risg sy'n gysylltiedig â'r diffyg cydymffurfiaeth yn gymharol isel
- mae gan y sefydliad hanes da o gydymffurfiaeth
- mae'r sefydliad wedi gweithredu'n ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad i gydymffurfio
- mae'r sefydliad wedi dangos parodrwydd i unioni'r materion
- ble bo'r diffyg cydymffurfiaeth tu hwnt i reolaeth y sefydliad, ond y byddem yn dymuno cydweithrediad y sefydliad i atal y diffyg cydymffurfiaeth rhag digwydd eto.

**4.16** Bydd unrhyw gyngor a/neu argymhellion a ddarperir bob amser yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig, a byddant fel arfer yn nodi:

- natur y diffyg cydymffurfiaeth
- beth ddylid ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfiaeth
- amserlen ar gyfer darparu tystiolaeth berthnasol
- yn achos llythyr rhybudd, canlyniadau posibl methu â chywiro'r diffyg cydymffurfiaeth.

4.17 Ble bo cyngor a/neu argymhellion wedi'u darparu, byddwn yn cymryd camau rhesymol ac ymarferol i gysylltu â'r sefydliad er mwyn derbyn tystiolaeth neu gadarnhad bod y camau hynny wedi'u cymryd. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro cydymffurfiaeth ac i sicrhau bod ein cyngor yn cael ei weithredu'n effeithiol.

4.18 Os caiff y mater dan sylw ei godi eto yn y dyfodol, bydd cyngor, argymhellion a/neu rhybuddion ysgrifenedig o'r fath yn cael eu hystyried wrth ystyried y camau gorfodi mwyaf priodol i'w cymryd.

**Cytundebau setlo**

4.19 Wrth ymrwymo mewn cytundeb setlo byddwn yn cytuno i beidio â chymryd camau gorfodi tra bo'r sefydliad yn cytuno i gymryd camau neu weithredu mewn ffordd benodol er mwyn adfer a chynnal cydymffurfiaeth i'r dyfodol.

4.20 Mae'n bosib y byddwn yn ceisio ymrwymo i gytundeb setlo pan fo sefydliad yn ymrwymo i gymryd camau rhesymol ac effeithiol o fewn amserlen benodol. Rydym yn debygol o gytuno i ymrwymo mewn cytundeb setlo ble rydym yn fodlon:

- bod y sefydliad wedi darparu digon o fanylion ar unrhyw gamau gweithredu arfaethedig – i'n galluogi i wneud penderfyniad gwybodus
- bod y cyfnod amser a gynigir ar gyfer cwblhau'r camau yn gyraeddadwy ac yn briodol, gan ystyried natur, difrifoldeb ac amgylchiadau'r achos
- bod tystiolaeth o ymrwymiad cadarnhaol i'r camau a bod y sefydliad yn debygol o gyflawni'r ymrwymiad hwnnw
- bod unrhyw gamau a gynigir yn ymddangos yn ddigonol i sicrhau nad yw'r diffyg cydymffurfio hwnnw'n parhau.

4.21 Mae'r Comisiynydd yn cadw'r hawl am gyfnod o 5 mlynedd i wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â'r cytundeb setlo.

**Gofyniad i gymryd camau penodol neu baratoi cynllun gweithredu**

4.22 Lle nad yw'n bosibl sicrhau bod sefydliad yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd, byddwn yn sicrhau bod hynny'n digwydd drwy ei wneud yn ofynnol i'r sefydliad gymryd camau penodol neu baratoi cynllun gweithredu.

4.23 Pan fyddwn yn penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliad gymryd camau penodol, neu baratoi cynllun gweithredu, byddwn yn nodi'r hyn sy'n ofynnol iddo ei wneud yn ein hysbysiad penderfynu.

### Rhoi cyhoeddusrwydd i'r diffyg cydymffurfiaeth

**4.24** Mae'n bosib y byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd, neu ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad roi cyhoeddusrwydd i'r diffyg cydymffurfiaeth ble rydym yn ystyried:

- y byddai hynny'n ymateb effeithiol, neu'n ran o ymateb effeithiol i atal diffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol
- bod diddordeb cyhoeddus amlwg yn yr ymchwiliad.

Gall hynny fod drwy ddulliau gwahanol gan gynnwys cyhoeddi:

- datganiad bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau
- adroddiad ar yr ymchwiliad
- unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r achos.

**4.25** Bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd, a'r canlyniadau os nad yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**4.26** Gall y gofyniad i roi cyhoeddusrwydd fod yn ychwanegol i gamau gorfodi eraill sy'n ofynnol o'r sefydliad.

### Cosb sifil

**4.27** Mewn achosion ble rydym yn ystyried gosod cosb sifil ar sefydliad, byddwn yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- difrifoldeb y mater
- amgylchiadau'r sefydliad
- yr angen i atal diffyg cydymffurfiaeth i'r dyfodol.

**4.28** Gallwn roi sylw i unrhyw fater arall sy'n berthnasol, yn ein tyb ni, wrth benderfynu a ddylid rhoi cosb sifil neu beidio.

**4.29** Gall cosb sifil fod yn unrhyw swm, hyd at uchafswm o £5,000[3]. Byddwn yn ystyried pa swm sy'n briodol yn seiliedig ar asesiad o natur, difrifoldeb ac amgylchiadau'r achos. Bydd unrhyw gosb sifil a dderbynnir yn cael ei thalu i Gronfa Gyfunol Cymru.

3 Noder, fodd bynnag, fod modd i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi swm gwahanol i'r uchafswm hwn.

**4.30** Bydd yr hysbysiad penderfynu yn cynnwys y manylion canlynol:

- swm y gosb sifil
- sut i dalu'r gosb sifil
- y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu'r gosb sifil (fydd ddim llai na 28 o ddiwrnodau)
- y canlyniad os na chaiff y gosb ei thalu
- hawl y sefydliad i apelio.

### Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi[4]

**4.31** Mewn achosion ble rydym wedi gosod un neu fwy o gamau gorfodi, byddwn yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gofynion hynny.

**4.32** Byddwn yn trin unrhyw fethiant i gydymffurfio gyda'r gofynion hyn o ddifri ac mae camau gorfodi pellach yn debygol o ddilyn. Gall hyn, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, gynnwys:

- yn ystod y cyfnod perthnasol[5], gwneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi'r sefydliad i gydymffurfio, neu
- rhoi cosb sifil.

**4.33** Bydd nifer o'r ffactorau a nodir yn 3.15 o'r polisi hwn yn berthnasol wrth ddod i benderfyniad o'r fath.

4 Un neu fwy o'r camau a nodir yn adran 77(3) y Mesur.
5 O fewn cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu, neu y daw'r cynllun gweithredu i rym.

# 5. Cofrestr Camau Gorfodi

**5.1** Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynnal cofrestr camau gorfodi sy'n nodi manylion yr ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym.

**5.2** Mae'r gofrestr yn cynnwys y manylion canlynol:

- disgrifiad o bob ymchwiliad
- canfyddiadau'r ymchwiliadau
- manylion hysbysiadau penderfynu
- datganiad sy'n nodi a weithredwyd ymhellach neu beidio
- os gweithredwyd ymhellach, datganiad ynglŷn â'r gweithredu hwnnw
- manylion apelau a wnaed i'r Tribiwnlys o dan Pennod 4, Rhan 5 y Mesur, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i benderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys.

**5.3** Mae copi o'r gofrestr gyfredol ar gael ar gael ar ein gwefan ac yn ein holl swyddfeydd. Byddwn yn diweddaru'r gofrestr yn barhaus.

**5.4** Bydd y wybodaeth a gedwir ar y gofrestr yn cael ei gadw yn unol â'n Polisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth.

## 6. Apelau i Dribiwnlys y Gymraeg

**6.1** Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys annibynnol sydd yn delio ag apeliadau gan sefydliadau ac achwynwyr yn erbyn rhai o benderfyniadau'r Comisiynydd.

**6.2** Gall sefydliad apelio i'r Tribiwnlys os yw'r Comisiynydd, yn dilyn ymchwiliad, wedi penderfynu y bu methiant i gydymffurfio â safon. Gall hefyd apelio yn erbyn unrhyw gamau gorfodi.

**6.3** Gall achwynydd apelio i'r Tribiwnlys os bydd y Comisiynydd, ar ôl ymchwiliad, wedi penderfynu nad oedd methiant i gydymffurfio â safon. Gall hefyd wneud cais i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn.

**6.4** Gellir dod o hyd i fanylion ynglŷn â sut i wneud apêl neu gais am adolygiad, ynghyd â Rheolau'r Tribiwnlys ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

## 7. Cwyno am y Comisiynydd

**7.1** Mae gennym weithdrefn gwyno benodol os bydd unrhyw un yn dymuno cyflwyno cwyn ynglŷn â'r Comisiynydd.

**7.2** Ceir manylion pellach am y weithdrefn hon ar ein gwefan.

**7.3** Gellir cysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

## 8. Addasiadau Rhesymol

**8.1** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n prosesau o dderbyn cwynion a chynnal ymchwiliadau yn deg ac yn hygyrch i bawb. Lle bo'n briodol, byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i'n gweithdrefnau a'n dulliau cyfathrebu i ddileu rhwystrau ac i gefnogi anghenion unigolion ag anableddau neu ofynion penodol.

## 9. Hysbysiad Preifatrwydd


**9.1** Mae gwybodaeth ynghylch casglu, defnyddio a diogelu data personol mewn cysylltiad â'n gwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn ein Hysbysiad Preifatrwydd. Rydym wedi ymrwymo i drin pob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. Am fanylion cynhwysfawr ynghylch ein harferion prosesu data, gan gynnwys hawliau unigolion a sut i'w gweithredu, cyfeiriwch at ein Hysbysiad Preifatrwydd.

## 10. Fersiynau Hygyrch

**10.1** Ar gais, gallwn ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), sain, a fformat Hawdd ei Ddeall.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner






Ff: 0345 6033 221

E: post@cyg-wlc.cymru

@comygymraeg

@comygymraeg

ComisiynyddGymraeg

Comisiynydd y Gymraeg/
Welsh Language Commissioner

comisiynyddygymraeg.cymru